



”

Mae Hijinx yn syml yn creu'r gwaith gorau. Gyda phawb, ar gyfer pawb, ac yn cael ei gyflwyno ym mhob man. Maen nhw wedi gwneud gwaith cynhwysol yn rhywbeth y dylen ni i gyd ei wneud.”

— PARTNER MEWN DIWYDIANT



CYFLEOEDD I LUNIO PARTNERIAETHAU CORFFORAETHOL

GADEWCH I NI WNEUD GWAHANIAETH GYDA'N GILYDD

CYNNWYS

CROESO	1
PWY YDYM N	2
EIN GWERTHOEDD	3
EIN GWAITH	4
EIN GWAITH PARHAD	5
EIN HEFFAITH	6
EIN PROFFIL	7
PAM LLUNIO PARTNERIAETH Â HIJINX	8
CYFLEOEDD NODDI	9
DEWCH YN BARTNER	10
PARTNERIAETH EFYDD	11
PARTNERIAETH ARIAN	12
PARTNERIAETH AUR	13
CYSYLLTWCH	14



CROESO

I BECYN GWYBODAETH NODDI HIJINX

Mae'r pecyn hwn yn amlinellu'r cyfleoedd cyffrous sydd ar gael i ddod yn bartner i Hijinx – cwmni theatr cynhwysol arloesol yng Nghymru.

O noddi perfformiadau a chynyrchiadau i gefnogi ein hyfforddiant, gwyliau a'n rhaglenni cymunedol, bydd eich cyfraniad yn helpu i hyrwyddo amrywiaeth, creadigrwydd a newid cymdeithasol.

Os ydych yn fusnes, sefydliad, neu unigolyn mae ffyrdd ystyrlon o gysoni eich gwerthoedd â'n rhai ni a chael effaith parhaol trwy gelfyddydau cynhwysol.



DYMA DDYWEDODD UN O'N PARTNERIAID YN 2024:

”

Roedd Connect: Under The Dome yn uchafbwynt i ni – hollol arloesol. Roedd perfformiad yr Astonauts yn hyfryd yn ei symlwrwydd ond yn llawn o ystyr. Roedd y gynulleidfa yn eich dwylo. Roedd y panel yn eiliad o athrylith, ac fe wnaeth y band orffen y noson yn berffaith. Gadawodd pawb wedi ei ysbrydoli ac yn llawn egni – fe gyflawnwyd ein bwriad yn gyflawn.”

SARAH DAY, ARWEINYDD UNED CYFLAWNI BUSNES, ADSS CYMRU

PWY YDYM NI

Er dros 40 mlynedd mae Hijinx wedi bod yn rhan flaenllaw o ddiwylliant Cymru.

Ni yw cwmni theatr cynhwysol Cymru sy'n ymdrechu dros gynhwysiant a chyfartaledd ar y llwyfan, y sgrin ac mewn cymdeithas i bobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth.

Rydym yn rhoi pobl ag anghenion dysgu ac awtistig yn ganolog i'n cynyrchiadau theatr, ffilmiau a'n hyfforddiant ac rydym wedi derbyn clod rhyngwladol am ein gwaith ac wedi ennill gwobrau.

Rydym yn gwybod bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn gweithio, mae ein hadroddiad effaith cymdeithasol yn dangos y newid yr ydym yn ei greu, gan gynyddu hyder, hapusrwydd, annibyniaeth a dyhead; gan greu Enillion Cymdeithasol ar y Buddsoddiad o £5 am bob £1 a fuddsoddir, ac mae'n heffaith ehangach yn meithrin newid trwy ein partneriaid.

Rydym wedi ymrwymo i greu gwaith sy'n gwneud gwahaniaeth. Mae ein cynlluniau'n uchelgeisiol, wedi eu creu ar gyfer, gan a gyda'r cymunedau yr ydym yn gweithio gyda nhw.



EIN GWERTHOEDD

DIDWYLLEDD

Rydym yn ddidwyll, tryloyw ac yn cael ein harwain gan leisiau pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth.

UCHELGAIS

Rydym yn gwthio ffiniau creadigol i yrru newid, hyrwyddo lleisiau nad ydynt yn cael cynrychiolaeth ddigonol ac yn ail-ddychmygu theatr a ffilm cynhwysol yng Nghymru a thu hwnt.

TEGWCH


Rydym yn chwalu rhwystrau i sicrhau mynediad teg ar y llwyfan ac oddi arni.

RHAGORIAETH

Rydym yn cynnal y safonau artistig, proffesiynol a moesegol uchaf, gan ddarparu gwaith sy'n llawn ystyr i bobl ac yn parhau.

CYMUNED

Rydym wedi ein gwreiddio yn ein cymunedau ac yn cael ein siapio ganddynt, gan gyd-greu cysylltiadau ystyrlon, parhaus sy'n ysbrydoli creadigrwydd a newid.



EIN GWAITH

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth o fyd lle mae'r celfyddydau a chymdeithas yn hollol gynhwysol i bobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth, rydym yn gweithredu ar draws nifer o ffrydiau gwahanol:

- Mae ein 5 Academi ar draws Cymru (Caerdydd x2, Caerfyrddin, Aberystwyth a Bae Colwyn) yn cynnig yr unig hyfforddiant perfformio proffesiynol yng Nghymru i oedolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.
- Actorion Hijinx yw'r asiantaeth dalent fwyaf i actorion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth. Rydym yn hyrwyddo dros 60 o artistiaid o bob rhan o Gymru ac yn eu cefnogi trwy bob cam o'r broses, o glyweliadau i sicrhau bod ganddynt y gefnogaeth greadigol ac ymarferol gywir.
- O gynyrchiadau theatr arloesol fel Housemates a Meet Fred i Ŵyl Undod Hijinx - gŵyl gelfyddydol gynhwysol fwyaf Ewrop a'r unig ddigwyddiad o'i fath yng Nghymru - mae ein theatr ddewr, sy'n teithio'r byd ac yn cael canmoliaeth ryngwladol yn cael ei chreu gyda, gan ac i bobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth.



EIN GWAITH



- Yr **Ensemble** yw cydweithfa gyntaf Cymru o artistiaid ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth, sy'n rhoi cyfle i 8 o berfformwyr talentog fireinio eu sgiliau a dyfnhau eu dealltwriaeth o'r diwydiant theatr wrth ddatblygu cynyrchiadau theatr gwreiddiol.
- Yn union fel yr ydym ym maes theatr, mae ein hactorion yn cael lle canolog yn ein **ffilmiau** sy'n cyfuno dewrder, hiwmor a chalon, gan bylu'r terfynau rhwng ffuglen a dogfen i ddweud storïau sy'n ffres, â'u traed ar y ddaear ac yn fythgofiadwy.
- Yn cael ei gyd-arwain gan Actorion Hijinx, mae ein **hyfforddiant arbenigol ar sail drama** yn cefnogi dros 1,000 o unigolion yn flynyddol – ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a chreadigol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig – i ddangos eu hymrwymiad i gynhwysiant ac amrywiaeth yn weithredol.
- Trwy **PAWB** – ein **rhaglen gymunedol trwy Gymru** – rydym yn ymgysylltu â dros 100 o bobl 16 i 80 oed bob wythnos. Mae hyn yn cynnwys grŵp theatr cymunedol i oedolion a'r unig ddau grŵp theatr penodol i bobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yng Nghymru, gyda sesiynau'n rhedeg trwy'r flwyddyn.

EIN HEFFAITH

90%

Mae dros 90% o actorion Hijinx wedi mynd ymlaen i waith proffesiynol yn y theatr, mewn ffilm neu ddarparu hyfforddiant

15k

Gwelir ein perfformiadau theatr gan dros 15,000 o bobl y flwyddyn

250

Perfformiwyd Meet Fred (2016) dros 250 o weithiau mewn **130** o ddinasoedd dros **19** o wledydd

5 ★

Derbyniodd Housemates (2023) lu o adolygiadau 5 seren, a chael canmoliaeth am ei bortread grymus o enedigaeth Byw â Chymorth. Enwebwyd actor Hijinx, Gareth John, am Wobr Perfformiad Cyntaf ar Lwyfan am ei ran yn actio Alan

30k

Cyrhaeddodd Gŵyl Undod Hijinx 2024 dros 30,000 o bobl ar draws Cymru – 86% ohonynt yn barnu bod yr ŵyl yn rhagorol

6

Ers 2018, rydym wedi gwneud 6 ffilm fer yn cynnwys Glitch a enillodd wobr (Dyluniad Sain Gorau Gŵyl Fisheye 2023)



Rydym wedi cefnogi ein hactorion mewn swyddi â thâl ar gyfer Casualty, Dr Who a Hidden/Craith

EIN PROFFIL ym Mehefin 2025

19k

o ddefnyddwyr gwefan gweithredol ar draws 365 diwrnod

194k

achlysur o edrych ar ein cyfryngau cymdeithasol mewn 90 diwrnod

17k

o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi eu cyrraedd mewn 90 diwrnod

11k

o ddilynwyr ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol

1k

wedi tansgrifio i'r cylchlythyr



PAM LLUNIO PARTNERIAETH Â HIJINX?

- **Cysylltu eich hun ag un o elusennau amlycaf Cymru** gyda brand sy'n cael ei barchu, cyrraedd rhyngwladol a dros 40 mlynedd o gelfyddydau cynhwysol arloesol.
- **Grymuso pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth ar draws Cymru** trwy gefnogi gweithgareddau diwylliannol ystyrlon sy'n creu effaith parhaol, dwyn cyfleoedd newydd a newid bywydau - gyda 90% o'n hactorion a chyfranogwyr yn cofnodi cynnydd mewn hyder, a 73% yn cofnodi mwy o annibyniaeth.
- **Cyflawni eich nodau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol ac Amgylcheddol Cymdeithasol a Llywodraethu** trwy bartneriaeth sy'n rhoi yn ôl i gymunedau ac yn gyrru newid gwirioneddol – gydag enillion cymdeithasol a brofwyd o £5 am bob £1 a fuddsoddir.

- **Datgloi buddion staff a chorfforaethol unigryw**, o gyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli cynhwysol i berfformiadau a digwyddiadau ecsgliwsif.
- **Cefnogi sefydliad sy'n ymwybodol yn gymdeithasol ac amgylcheddol** sydd wedi ymrwymo i arferion cynaliadwy a chreu dyfodol gwyrddach, mwy cynhwysol i bawb.

Er mwyn rhoi ymdeimlad i chi o sut y gall hyn edrych yn ymarferol, mae'r tudalennau nesaf yn rhoi enghreifftiau o gyfleoedd noddi a phecynnau partneriaeth.

Mae'r rhain yn hollol hyblyg a gellir eu haddasu i adlewyrchu nodau, gwerthoedd a meysydd diddordeb eich sefydliad chi.

CYFLEOEDD NODDI

Mae llawer o ffyrdd effeithiol o gefnogi ein gwaith a hyrwyddo theatr gynhwysol. Dyma ychydig o gyfleoedd i gymryd rhan:

- **Rhoi bwrsariaeth i actor** ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth
- **Noddi perfformiad i roi llwyfan** i dalent sy'n dod i'r amlwg a dathlu theatr gynhwysol ar ei orau
- **Gosod eich brand yng nghanol Undod**, un o brif wyliau celfyddydol yr anabl Ewrop – Llwyfan cenedlaethol a rhyngwladol unigryw i berfformiadau cynhwysol, yn rhoi cyfle i artistiaid o Gymru ac ar draws y byd
- **Cefnogi Cynhyrchiad Newydd** – Noddi datblygiad neu lwyfannu cynhyrchiad theatr gwreiddiol fel cynhyrchiad gaeaf blynyddol ein grŵp theatr cymunedol Odyssey yng Nghanolfan Mileniwm Cymru a gyrhaeddodd dros 1,500 o bobl
- **Noddwr Hygyrchedd a Theithio** – Talu costau teithio, llety neu gefnogaeth hygyrchedd fel bod ein hactorion a chyfranogwyr yn gallu cymryd rhan lawn – ar draws Cymru a thu hwnt



Os hoffech ein cefnogi mewn ffordd arall gallech roi cyfraniad corfforaethol, gwirfoddoli eich amser, enwebu Hijinx fel eich Elusen y Flwyddyn, sefydlu rhoi trwy'r gyflogres, neu godi arian yn eich cymuned – mae pob gweithred yn gwneud gwahaniaeth.

”Roedd Grant Stephens Family Law yn hynod falch o gefnogi Gŵyl Undod Hijinx. Fel cwmni o Gymru, rydym wrth ein boddau o gael cefnogi elusen leol sy'n cyflawni gwaith mor wych. Trwy'r cydweithredu hwn cefnogwyd perfformiadau a chynrychiadau rhyfeddol yn cynnwys artistiaid talentog ag anabledd dysgu ac awtistig. Trwy gefnogi Hijinx rydym yn cyfrannu at gymuned gelfyddydol fwy cynhwysol sy'n cael ei dathlu trwy berfformiadau.”

**GRANT STEPHENS, GRANT STEPHENS
FAMILY LAW, NODDWR GŴYL UNDOD
2024**

DEWCH YN BARTNER

Mae dod yn Bartner Corfforaethol o Hijinx yn wahoddiad i fod yn rhan o deulu Hijinx.


Nid yn unig byddwch yn cael mynediad at fanteision ecsgliwsif i'ch tîm a'ch cleientau, ond byddwch yn llysgennad i waith Hijinx ar y llwyfan, ar sgrin ac yn y gymuned trwy eich cefnogaeth.



GALLAI MANTEISION PARTNERIAETH GYNNWYS:

PARTNER EFYDD – O £2.5K

- Amlygu eich partneriaeth ar sianeli digidol Hijinx gyda phostiad Partner Efydd a gosod logo
- Tocynnau am ddim neu am bris gostyngol i berfformiadau Hijinx
- Blaenoriaeth wrth archebu sesiynau hyfforddiant cynhwysol Hijinx sydd wedi ennill gwobrau
- Adroddiad effaith blynyddol – clywch yn uniongyrchol gan y rhai y mae eich cefnogaeth yn newid eu bywydau
- Mynychu sesiwn Academi neu Pawb – dewch i ddeall y gwaith y mae eich cefnogaeth yn sicrhau ei fod yn bosibl
- Bathodyn partner i'w ddefnyddio yn eich marchnata eich hun, yn dangos eich cefnogaeth i gelfyddydau cynhwysol



PARTNER ARIAN – O £5K

Yn cynnwys yr holl fanteision Efydd, a:

- Cyfle i noddi maes penodol o'n gwaith (e.e. Academi Hijinx, digwyddiad Gŵyl Undod, neu brosiect Ensemble)
- Cyfleoedd gwirfoddoli creadigol i staff, fel 'diwrnod meddiannu' yn Academi neu Ensemble - Eich tîm yn ymweld a chymryd rhan mewn diwrnod wedi ei guradu o weithdai creadigol, trafodaethau a dysgu ar y cyd gydag actorion Hijinx
- Myned i ymarferion ecsgliwsif ar gyfer cynhyrchiad newydd gydag amser i gyfarfod a thrafod gyda'r artistiaid
- Brandio amlwg mewn deunyddiau digidol a phrint sy'n cyrraedd miloedd trwy Gymru a thu hwnt
- Cyfleoedd i siarad mewn digwyddiadau Hijinx neu gael eich proffilio yn ein sylw cenedlaethol ar y cyfryngau fel hyrwyddwr cynhwysiant
- Gwahoddiadau VIP i nosweithiau i'r wasg, dangosiadau cyntaf a holi ac ateb y staff




PARTNER AUR – O £10K

Wedi ei gyfyngu i nifer fechan o Bartneriaid Aur y flwyddyn.

Yn cynnwys yr holl fanteision Arian, a:

- Cyd-greu perfformiad wedi ei gynllunio i'r diben, gweithdy neu ddigwyddiad creadigol (gall costau ychwanegol fod yn berthnasol) – wedi ei greu i'r pwrpas i adlewyrchu eich gwerthoedd a'ch amcanion
- Mynediad am ddim i 5 aelod o staff allweddol i'n hyfforddiant cyfathrebu cynhwysol
- “Mewn cysylltiad â [Eich Brand]” credyd am un cynhyrchiad blaengar neu leoliad Gŵyl Undod
- Cydweithio ar gynnwys wedi ei gyd-frandio – blogiau, cyfweiliadau neu erthyglau yn amlygu eich gwerthoedd cynhwysol
- Lansiad partneriaeth personol ar draws sianeli digidol Hijinx



CYSYLLTWCH



Er mwyn cael gwybod rhagor neu drafod gweithio gyda ni cysylltwch.



Eloise Tong

Cyfarwyddwr Gweithredol a
Chyd-Brif Swyddog
Gweithredol
eloise.tong@hijinx.org.uk
02920 300331



Susan Kingman

Pennaeth Datblygu Busnes
susan.kingman@hijinx.org.uk
02920 300331



Greta Bettinson

Swyddog Datblygu
greta.bettinson@hijinx.org.uk
02920 300331



Caitlin Rickard

Rheolwr Marchnata a
Datblygu Cynulleidfa
caitlin.rickard@hijinx.org.uk
02920 300331